Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Plas Coch
# Ffordd Stansty
# Plas Coch
# Wrecsam
# LL11 2BU

**Dyddiad yr arolygiad: Medi 2014**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**© Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 25/11/2014**

## Cyd-destun

Ysgol gynradd ddynodedig Gymraeg yn nhref Wrecsam yw Ysgol Plas Coch. Ers Medi 2013, mae'r ysgol wedi bod yn rhan o ffederasiwn gydag Ysgol Gymraeg Bro Alun yng Ngwersyllt. Mae 363 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol ar hyn o bryd sy'n cynnwys 45 o blant oed meithrin sy'n mynychu'n rhan-amser. Mae'r ysgol yn derbyn disgyblion yn llawn amser i'r dosbarth derbyn ym mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn bedair oed. Mae un dosbarth meithrin, 12 dosbarth cyffredin ac un dosbarth cymysg o ran oedran yn yr ysgol ar hyn o bryd.

Mae oddeutu 7% o ddisgyblion â'r hawl i dderbyn cinio ysgol am ddim yn yr ysgol ar hyn o bryd, sy'n sylweddol is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Daw 33% o ddisgyblion o gartrefi lle siaredir y Gymraeg. Fodd bynnag, mae'r ysgol yn nodi mai 22% o ddisgyblion sydd yn siarad Cymraeg yn y cartref. Cymraeg yw cyfrwng yr addysgu a'r dysgu yn y Cyfnod Sylfaen. Yng nghyfnod allweddol 2, addysgir y disgyblion drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg gyda'r nod o'u cael yn ddwyieithog erbyn iddynt drosglwyddo i'r ysgol uwchradd. Mae tua 9% ar y gofrestr anghenion dysgu ychwanegol yn cynnwys ychydig iawn o ddisgyblion gyda datganiad addysgol. Mae ychydig iawn o ddisgyblion o gefndir ethnig yn yr ysgol ar hyn o bryd. Cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf ym mis Hydref 2008. Mae'r pennaeth yn ei swydd ers Ionawr 2013. Sefydlwyd uwch dîm rheoli newydd yr ysgol yn Ebrill 2013.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Plas Coch yn 2014-2015 yw £2,876. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Wrecsam yw £9,653, a'r lleiafswm yw £2,876. Mae Ysgol Plas Coch yn y 60fed safle o'r 60 ysgol gynradd yn Wrecsam o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Digonol** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad cyfredol yr ysgol yn dda oherwydd:

- bod bron pob disgybl yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu;
- bod rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio a chymhwyso'r medrau rhifedd maent yn eu dysgu mewn gwersi mathemateg yn llwyddiannus ar draws y cwricwlwm; a
- bod cyfradd presenoldeb yr ysgol yn gyson dda ac yn ei gosod yn y 50% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg.

Fodd bynnag

- nid yw medrau llythrennedd ychydig o ddisgyblion ar draws y cwricwlwm wedi datblygu'n llawn; ac
- mae perfformiad yr ysgol ar y deilliant uwch (deilliant 6) dros y tair blynedd ddiwethaf wedi gostwng ymhob maes dysgu ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol ddigonol oherwydd:

- bod y pennaeth, gyda chefnogaeth dau ddirprwy wedi sefydlu gweledigaeth gadarn sydd â ffocws clir ar weithio fel tîm er mwyn codi safonau;
- bod dealltwriaeth arweinwyr o pa mor dda mae grwpiau amrywiol o ddisgyblion yn perfformio yn gynhwysfawr; a
- bod yr ysgol wedi sefydlu gweithdrefnau treiddgar ar gyfer hunanarfarnu sy'n cynnwys dadansoddi data yn drwyadl a chywain tystiolaeth uniongyrchol.

Fodd bynnag:

- nid yw'r wybodaeth sy'n deillio o'r gweithdrefnau hunanarfarnu yn cael eu defnyddio'n ddigon effeithiol er mwyn blaenoriaethu a chynllunio ar gyfer gwelliant;
- nid yw'r ysgol yn gosod targedau digon meintiol na meini prawf i fesur llwyddiant yn ddigon effeithiol; ac
- nid yw dealltwriaeth y corff llywodraethol am berfformiad yr ysgol o'i chymharu ag ysgolion tebyg, wedi'i datblygu digon.

## Argymhellion

A1 Gwella defnydd y disgyblion o'u medrau llythrennedd ar draws pynciau'r cwricwlwm

A2 Codi perfformiad yr ysgol ar y deilliant uwch ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen ymhob maes dysgu

A3 Sicrhau bod arweinwyr yn gwneud defnydd effeithiol o'r materion sy'n deillio o'r weithdrefn hunanarfarnu i bennu blaenoriaethau gwella

A4 Datblygu rôl strategol y llywodraethwyr er mwyn eu galluogi i fonitro a herio perfformiad yr ysgol yn effeithiol

A5 Sicrhau bod systemau hunanarfarnu'r ysgol yn arwain at nodi blaenoriaethau clir yn y cynllun datblygu ysgol sy'n gysylltiedig â chodi safonau

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae bron pob disgybl yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu. Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd sylweddol o'u man cychwyn. Ar draws yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn cyfranogi'n frwdfrydig yn eu dysgu ac yn barod i fentro a chynnig atebion addas.

Mae rhan fwyaf o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn gwrando'n astud ac yn sgwrsio'n hyderus am eu gwaith gan ddefnyddio cystrawen addas a geirfa sy'n briodol i'w hoed a'u gallu. Erbyn diwedd y cyfnod, mae llawer yn trafod eu syniadau'n glir ac yn frwdfrydig gan ddefnyddio patrymau brawddegau cadarn. Mae llawer o ddisgyblion yn mwynhau trafod llyfrau ac yn gwneud cynnydd priodol gan ddarllen yn ystyrlon, a chyda dealltwriaeth gadarn o'r testun. Mae ychydig o ddisgyblion mwy abl yn medru trafod cynnwys y stori'n fanwl gan gyfeirio at rannau penodol o'r llyfr wrth drafod eu hoff gymeriad.

Mae llawer o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn cyfathrebu'n glir ac yn hyderus yn y ddwy iaith, gan ymuno â thrafodaethau dosbarth yn frwdfrydig. Erbyn diwedd y cyfnod allweddol, mae rhan fwyaf yn trafod agweddau o'u gwaith yn ddeallus gydag ychydig o ddisgyblion mwy abl yn trafod gydag aeddfedrwydd a chan ddefnyddio geirfa ymestynnol. Mae llawer o ddisgyblion yn darllen yn hyderus yn y Saesneg gan ddangos ymwybyddiaeth dda o gynulleidfa. Fodd bynnag, ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, nid yw safonau darllen ychydig o ddisgyblion wedi datblygu cystal yn y Gymraeg. Mae ychydig yn darllen gydag ansicrwydd a diffyg dealltwriaeth o'r testun. Mae llawer o ddisgyblion yn medru cywain gwybodaeth berthnasol o wahanol destunau gan gynnwys technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn effeithiol. Ar frig yr ysgol, mae mwyafrif o ddisgyblion yn defnyddio'r ddwy iaith yn hyderus. Enghraifft o hyn yw'r disgyblion yn darganfod ffeithiau mewn llyfrau cyfair Saesneg a chyflwyno prif bwyntiau yn y Gymraeg yn hyderus.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r mwyafrif yn gwneud cynnydd da yn eu medrau ysgrifennu. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, mae'r mwyafrif ohonynt yn defnyddio'u medrau llythrennedd yn addas gan ysgrifennu'n synhwyrol ac yn annibynnol. Mae'r ychydig o ddisgyblion mwy abl yn defnyddio ffurf gryno'r ferf yn gyson ac yn atalnodi eu gwaith yn briodol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n ddeallus mewn amrywiaeth o ffurfiau yn y ddwy iaith. Ar frig yr ysgol, mae mwyafrif o'r disgyblion mwy abl yn cynhyrchu gwaith ysgrifennu ymestynnol yn Saesneg gan ddefnyddio geirfa eang i gyfoethogi eu gwaith. Enghraifft o hyn yw' r gwaith portread o gymeriadau dychmygol sy'n seiliedig ar ffeithiau hanesyddol. Mae llawer o ddisgyblion yn dangos gafael eithaf sicr ar ffurf wrth ysgrifennu yn y Gymraeg gan ddatblygu eu syniadau'n ddychmygus a chan sillafu'n gyson gywir. Mae cyflwyniad gwaith ar draws yr ysgol yn daclus.

Er bod safonau llythrennedd llawer o ddisgyblion yn dda mewn gwersi iaith, nid oes digon o gynnydd i'w weld yn eu defnydd o'r medrau hyn ar draws yr agweddau a'r pynciau eraill.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio a chymhwyso eu medrau rhifedd yn briodol mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd. Gall y mwyafrif ddisgrifio nodweddion siapiau 2D a 3D gan ddefnyddio geirfa fathemategol yn llwyddiannus. Mae'r rhan fwyaf yn gallu dod o hyd i ffracsiwn o siâp yn hyderus. Erbyn diwedd y cyfnod, mae'r rhan fwyaf yn defnyddio'u medrau rhifedd yn llwyddiannus i ddatrys problemau mathemategol mewn amrywiaeth o feysydd dysgu. Yng nghyd-destun eu gwaith thema ar anifeiliaid, mae llawer yn gallu casglu a chofnodi data ar graff bloc yn annibynnol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae medrau mathemategol y rhan fwyaf o ddisgyblion mewn gwersi a llyfrau yn dda. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau cyfrifo yn gywir wrth ddatrys problemau. Maent yn defnyddio strategaethau priodol i ddod o hyd i berimedr siâp 2D gyda'r mwyafrif o ddisgyblion mwy abl yn cyfrifo arwynebedd siapiau afreolaidd yn hyderus. Mae rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau rhifedd yn llwyddiannus ar draws y cwricwlwm. Yn eu gwaith daearyddiaeth, mae'r rhan fwyaf yn darllen graddfa yn effeithiol wrth ddod o hyd i bellter rhwng yr ardal leol a gwledydd eraill yn Ewrop. Mae rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio a chymhwyso'r medrau rhifedd maent yn eu dysgu mewn gwersi mathemateg yn effeithiol i safon briodol ar draws y cwricwlwm. Ar draws yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio'u medrau meddwl yn llwyddiannus mewn amrywiaeth o gyd-destunau.

Yn y Cyfnod Sylfaen dros y tair blynedd diwethaf, mae perfformiad yr ysgol ar y deilliant disgwyliedig wedi amrywio rhwng yr 50% is a'r 50% uwch o gymharu ag ysgolion tebyg mewn llythrennedd a chyfathrebu yn y Gymraeg. Mae perfformiad yr ysgol mewn datblygiad mathemategol wedi bod yn y 25% isaf am ddwy o'r tair blynedd dros yr un cyfnod. Mae perfformiad yr ysgol ar y deilliant uwch, dros y tair blynedd ddiwethaf wedi gostwng ymhob maes dysgu. Yn 2014, mae'r ysgol yn perfformio yn y 25% isaf mewn iaith, llythrennedd a chyfathrebu yn y Gymraeg ac yn y 50% is mewn datblygiad mathemategol o gymharu â pherfformiad ysgolion tebyg.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae perfformiad yr ysgol ar y lefel ddisgwyliedig dros y pedair blynedd ddiwethaf wedi amrywio. Yn gyffredinol, mae perfformiad yr ysgol wedi amrywio rhwng y 50% is a'r 50% uwch ym mhob pwnc craidd o gymharu ag ysgolion tebyg. Yn 2014, roedd cynnydd da i weld yn neilliannau'r disgyblion a gyrhaeddodd y lefel ddisgwyliedig mewn Saesneg, lle'r oedd perfformiad yr ysgol yn y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg.

Yn 2014, mae perfformiad yr ysgol ar y lefel uwch na'r lefel ddisgwyliedig, yn yr 50% isaf mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth ac yn yr 50% uwch mewn Cymraeg o gymharu ag ysgolion tebyg. Dros amser, mae perfformiad ar y lefel uwch wedi amrywio, heb duedd amlwg. Mae perfformiad yr ysgol mewn gwyddoniaeth wedi bod yn y 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg am dair o'r pedair blynedd ddiwethaf.

Nid oes patrwm amlwg yng nghyflawniadau disgyblion sydd â'r hawl i brydau ysgol am ddim o gymharu â'r disgyblion nad oes ganddynt yr hawl ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen ar y deilliant disgwyliedig a'r deilliant uwch. Yn gyffredinol, ar ddiwedd

cyfnod allweddol 2, mae cyflawniadau disgyblion sydd â'r hawl i brydau ysgol am ddim cystal, os nad gwell, o gymharu â'r disgyblion sydd heb fod yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim ar y lefelau disgwyliedig.

Yn gyffredinol, mae'r safonau a welwyd yn llyfrau'r disgyblion ac ar lawr y dosbarth yn well nag y mae data perfformiad yr ysgol yn ei awgrymu.

**Lles: Da**

Mae bron pob disgybl yn mwynhau'r ysgol ac yn gwybod at bwy i droi am gyngor neu i drafod os oes ganddynt unrhyw bryder. Mae llawer o'r disgyblion yn ymwybodol o bwysigrwydd cadw'n iach drwy fwyta ffrwythau a llysiau'n rheolaidd, yfed dŵr a gwneud ymarfer corff yn gyson trwy weithgareddau chwaraeon amrywiol.

Ar draws yr ysgol, mae ymddygiad bron pob disgybl yn dda ac maent yn dangos parch a chwrteisi tuag at ei gilydd. Mae llawer o ddisgyblion yn cydweithio'n llwyddiannus â'i gilydd ac yn cadw ar dasg am gyfnodau penodol. Fodd bynnag, nid yw ychydig o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn hyderus wrth wneud dewisiadau sy'n eu harwain at wneud penderfyniadau ynglŷn â'u dysgu eu hunain.

Mae'r cyngor ysgol a'r cyngor eco yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn sicrhau bod llais y dysgwr yn cyfrannu'n effeithiol at waith a bywyd yr ysgol. Mae'r cyngor ysgol yn cadw cofnodion manwl o'u cyfarfodydd ac yn gwneud penderfyniadau gwerthfawr, megis dewis codi arian er mwyn prynu offer defnyddiol i atgyfnerthu lles disgyblion. Maent yn datblygu ymwybyddiaeth o'r gymuned leol drwy ymweliadau a chodi arian at elusennau arbennig.

Mae presenoldeb yr ysgol yn gyson dda. Mewn cymhariaeth ag ysgolion tebyg ar sail y ganran o ddisgyblion sydd â'r hawl i dderbyn cinio am ddim, mae'r ysgol wedi bod yn yr 50% uwch dros y pedair blynedd ddiwethaf.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu profiadau cyfoethog sy'n ateb gofynion y cwricwlwm yn llawn. Mae'r athrawon yn cydweithio'n effeithiol i greu cynlluniau gwaith manwl sy'n gosod sail gadarn i'r dysgu yn y ddau gyfnod allweddol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion wedi'i chynllunio'n briodol i sicrhau dilyniant ar draws yr ysgol. Mae'r ysgol wedi ymgorffori'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn llawn yng nghynlluniau'r ysgol. Mae'r athrawon yn cynllunio profiadau cadarn er mwyn datblygu medrau ymchwiliol disgyblion yn dda. Fodd bynnag, nid yw cynlluniau'r ysgol bob amser yn cynnig digon o her ar gyfer y disgyblion mwy abl.

Trwy waith thema, mae'r ysgol yn datblygu dealltwriaeth y disgyblion o'u rôl nhw mewn cymdeithas yn dda ynghyd â meithrin ymwybyddiaeth addas o ffordd o fyw mewn gwledydd eraill. Mae materion am yr amgylchedd a chynaliadwyedd yn cael eu hyrwyddo'n llwyddiannus trwy waith y cyngor ysgol a'r cyngor eco. Mae hyn yn galluogi'r disgyblion i chwarae rhan ganolog wrth ailgylchu, compostio ac arbed ynni.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer datblygu’r iaith Gymraeg a’r dimensiwn Cymreig yn gadarn ar draws yr ysgol. Rhoddir sylw da i ddatblygu’r iaith Gymraeg yn ystod blynyddoedd cynnar y disgyblion. Mae’r ysgol yn sicrhau cyfleoedd cyson i ddisgyblion berfformio, cystadlu a chymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol sy’n cyfoethogi’r cwricwlwm ac yn atgyfnerthu dealltwriaeth y disgyblion o ddiwylliant Cymru.

**Addysgu: Da**

Ar draws yr ysgol, mae’r athrawon yn cynllunio gwersi’n ofalus gan ysgogi diddordeb y disgyblion yn llwyddiannus. Mae athrawon yn cyflwyno cysyniadau newydd yn glir, ac yn sicrhau dealltwriaeth y disgyblion o’r tasgau. Mae’r athrawon yn defnyddio ystod o adnoddau’n effeithiol i gefnogi dysgu disgyblion. Mae rhan fwyaf yr athrawon yn cwestiynu’n dreiddgar er mwyn ymestyn dealltwriaeth y disgyblion a chanfod yr hyn maent yn ei ddeall. Defnyddir y cymorthyddion yn effeithiol er mwyn cefnogi unigolion a grwpiau penodol o ddisgyblion. Yn y rhan fwyaf o’r gwersi, mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel. Fodd bynnag, yn yr ychydig iawn o’r gweddill, nid oes digon o her ar gyfer y disgyblion mwy abl.

Ar draws yr ysgol, mae’r athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn ymwybodol o’r amcanion dysgu. Maent yn gosod meini prawf llwyddiant yn gyson ac yn defnyddio canmoliaeth yn effeithiol i annog y disgyblion llai hyderus. Mae’r disgyblion yn elwa o’r ffaith bod eu hathrawon yn trafod ansawdd eu gwaith mewn modd sensitif ac adeiladol gyda nhw. Caiff gwaith ysgrifenedig y disgyblion ei farcio’n rheolaidd ac mae sylwadau athrawon yn rhoi gwybod i’r disgyblion yn glir beth sydd angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith. Fodd bynnag, nid oes cyfleoedd cyson i ddisgyblion weithredu ar sylwadau’r athro er mwyn gwella eu hymdrechion cyntaf.

Mae gan yr ysgol systemau clir ar gyfer asesu ac olrhain cynnydd disgyblion. Mae’r ysgol yn defnyddio deilliannau profion safonol ac ystod o dasgau asesu priodol eraill yn effeithiol fel sail iddynt gynllunio gweithgareddau addas sy’n cwrdd ag anghenion y disgyblion.

Mae’r adroddiadau ysgrifenedig i rieni ar gynnydd eu plant yn bodloni gofynion statudol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae’r ysgol yn gymuned hapus a gofalgar sy’n sicrhau bod disgyblion yn teimlo’n ddiogel. Mae’n hyrwyddo iechyd a lles disgyblion yn llwyddiannus ac mae polisïau cadarn ar waith. Mae’r ysgol yn darparu cyfleoedd amrywiol i hybu iechyd a ffitrwydd y disgyblion yn effeithiol y tu mewn a thu allan i oriau’r ysgol. Mae’r ysgol yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae bron pob disgybl yn rhan weithredol o fywyd yr ysgol ac yn falch o gael cyfleoedd i gyfrannu i helpu ei gilydd ac eraill ac i weithio tuag at wella’r ysgol.

Caiff datblygiad moesol ac ysbrydol y disgyblion ei ddatblygu’n llwyddiannus ar draws yr ysgol drwy wasanaethau rheolaidd, cyfnodau myfyrio ac amser cylch.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau buddiol ag asiantaethau arbenigol, megis gwasanaeth iaith a lleferydd, lles ac asiantaethau iechyd.  Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn dda.  Mae'r cydlynydd yn adnabod anghenion penodol disgyblion yn gynnar, ac yn darparu cefnogaeth gadarn sydd wedi cyfrannu at wella safonau cyflawniad y disgyblion.  Mae cynlluniau addysg unigol disgyblion yn cynnwys targedau clir sy'n cael eu trafod yn rheolaidd gyda'r rhieni.  O dan arweiniad cadarn y cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol, mae'r cynlluniau'n cael eu monitro'n rheolaidd.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae ethos hapus a chroesawgar yn bodoli yn yr ysgol lle mae disgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol tuag at eu cyfoedion.  Mae'r ysgol yn sicrhau hawliau cyfartal i'w holl ddisgyblion, staff, rhieni a gofalwyr.  Mae disgyblion hŷn yr ysgol yn gofalu'n dda am y disgyblion iau yn ystod amser chwarae ac amser cinio drwy weithredu system "Mêts Grêt".  Mae'r cydweithio hwn yn effeithio'n gadarnhaol ar ddatblygiad medrau personol a chymdeithasol y disgyblion.  Caiff gwerthoedd megis goddefgarwch a chydraddoldeb hiliol eu hyrwyddo'n effeithiol trwy waith thema ac amser cylch.

Mae gan yr ysgol ystod o adnoddau effeithiol i gefnogi'r addysgu a'r dysgu.  Mae'r adeiladau yn cael eu cynnal a'u cadw i safon briodol a chaiff y safle allanol ei gadw'n daclus.  Caiff ardaloedd y Cyfnod Sylfaen eu defnyddio'n llwyddiannus i hybu profiadau cyfoethog a diddorol i ddisgyblion ieuengaf yr ysgol.  Er bod y prif adeilad yn gyfyng ar gyfer nifer y disgyblion, mae'r ysgol yn trefnu'r agwedd hon yn addas o dan amodau anodd.

Mae'r arddangosfeydd o amgylch yr ysgol yn dathlu gwaith a llwyddiannau disgyblion ac yn cefnogi eu dysgu yn dda.

| **Cwestiwn Allweddol 3:  Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth:  Digonol**

Mae'r pennaeth, staff a llywodraethwyr yn gweithio'n briodol i feithrin ethos ysgol gyfan cynhaliol ble mae'r disgyblion yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi.  Mae hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar safonau lles y disgyblion.  Mae'r pennaeth, gyda chefnogaeth dau ddirprwy, wedi sefydlu gweledigaeth gadarn sydd â ffocws clir ar weithio fel tîm er mwyn codi safonau.  Yn ystod y flwyddyn academaidd ddiwethaf, mae strwythur arweinyddiaeth yr ysgol wedi'i addasu'n briodol er mwyn ymateb i her ffedereiddio gydag ysgol gyfagos.

Mae'r uwch dîm rheoli, sy'n gymharol newydd, wedi sicrhau bod athrawon yn cyflwyno nifer o strategaethau cadarn i ddarparu profiadau eang a chyson ar draws y cwricwlwm er mwyn codi safonau disgyblion.  Mae gan bob aelod o'r uwch dim rheoli agweddau penodol i'w harwain er mwyn datblygu'r ysgol fel cymuned ddysgu

effeithiol.  Fodd bynnag, nid yw eu hymwybyddiaeth o'u cyfrifoldebau yn ddigon clir. Maent yn monitro data perfformiad yn effeithiol ac mae ganddynt ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol o addysgu ar draws yr ysgol.  Fodd bynnag, nid yw'r wybodaeth sy'n deillio yn cael ei defnyddio'n ddigon effeithiol er mwyn blaenoriaethu a chynllunio ar gyfer gwelliant.

Mae'r corff llywodraethol, a ffurfiwyd yn dilyn y ffedereiddio, yn gefnogol i waith yr ysgol.  Mae'r llywodraethwyr yn derbyn gwybodaeth gyson am ddata perfformiad a chyflawniad disgyblion trwy adroddiadau'r pennaeth ac wrth ymweld â dosbarthiadau yn achlysurol.  Fodd bynnag, nid yw dealltwriaeth llywodraethwyr am berfformiad yr ysgol o'i chymharu ag ysgolion tebyg, wedi datblygu'n briodol.  Mae hyn yn cyfyngu ar eu gallu i weithredu'n strategol er mwyn herio'r ysgol yn effeithiol fel cyfeillion beirniadol.

Mae'r cyfarfodydd staff yn cael eu defnyddio'n bwrpasol i fynd i'r afael â blaenoriaethau ysgol gyfan, er enghraifft asesu ar gyfer dysgu.  Rhoddir sylw dyledus i flaenoriaethau cenedlaethol megis y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd.

**Gwella ansawdd:  Digonol**

Mae'r pennaeth wedi sefydlu rhaglen addas ar gyfer monitro ac arfarnu ystod eang o agweddau ar fywyd yr ysgol dros gyfnod.  Mae ymdrech barhaus gan y staff i wella ar berfformiad blaenorol yr ysgol ac mae'r ysgol yn llwyddo i gynnal ac i godi safonau mewn agweddau penodol o'r cwricwlwm.

Mae adroddiad hunanarfarnu'r ysgol, er yn ddisgrifiadol ar adegau, yn ddogfen gynhwysfawr sy'n cwmpasu ystod briodol o dystiolaeth addas sy'n cynnwys cyfraniad staff a barn disgyblion a'r rhieni.  Mae'n nodi cryfderau'r ysgol ond nid yw'n rhoi sylw digon manwl i agweddau sydd angen eu gwella, yn enwedig mewn perthynas â chyflawniadau'r disgyblion.  Mae'r ysgol wedi sefydlu dulliau treiddgar ar gyfer hunanarfarnu sy'n gwneud defnydd addas o dystiolaeth uniongyrchol o addysgu. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yn dadansoddi deilliannau monitro'n ddigon manwl er mwyn cynllunio camau strategol ar gyfer gwelliant.

Mae'r ysgol yn dadansoddi data yn drwyadl ac mae dealltwriaeth staff o ba mor dda mae grwpiau amrywiol o ddisgyblion yn perfformio yn gynhwysfawr.  Mae'r wybodaeth hon yn gymorth wrth greu cynllun datblygu'r ysgol.  Mae'r cynllun datblygu blaenorol yn rhoi sylw teilwng i gyllid a chyfrifoldebau staff yn ogystal â therfynau amser priodol.  Fodd bynnag, nid yw'r ysgol yn gosod targedau digon meintiol na meini prawf i fesur llwyddiant yn ddigon effeithiol.  Mae hyn yn amharu ar allu arweinwyr a llywodraethwyr i osod cyfeiriad strategol sy'n seiliedig ar ddeilliannau'r weithdrefn hunanarfarnu.

Mae'r llywodraethwyr yn arsylwi gwersi, monitro llyfrau disgyblion ac yn derbyn adroddiadau manwl ar ddata perfformiad.  O ganlyniad, mae eu dealltwriaeth o gryfderau'r ysgol yn dechrau datblygu.

Nid yw'r ysgol wedi gwneud digon o gynnydd yn erbyn ychydig o argymhellion yr arolygiad blaenorol yn enwedig mewn perthynas â ffurfioli rôl y tîm rheoli a'r llywodraethwyr.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol bartneriaethau strategol effeithiol sy'n cyfrannu at wella safonau a lles y disgyblion yn dda. Mae gan yr ysgol berthynas gref gyda rhieni ac maent yn cyfrannu symiau sylweddol yn rheolaidd ar gyfer prynu adnoddau ac offer defnyddiol, fel caledwedd TGCh. Caiff gwybodaeth briodol ei rhannu'n effeithiol gyda'r rhieni trwy gylchlythyron rheolaidd.

Mae cysylltiadau â'r gymuned yn effeithiol ac yn cynnig profiadau gwerthfawr i'r disgyblion. Enghraifft o hyn yw'r modd mae'r ysgol wedi cydweithio gyda busnes lleol i gynnal wythnos o weithgareddau gwyddoniaeth i'r disgyblion.

Mae gan yr ysgol bartneriaeth dda â'r cylchoedd meithrin, sy'n sicrhau bod disgyblion yn ymgartrefu'n gyflym wrth ddechrau yn y Cyfnod Sylfaen.

Trwy weithio'n agos ag ysgolion y clwstwr a thu hwnt i hynny, mae'r ysgol wedi llwyddo i rannu arfer dda ar brosiectau yn seiliedig ar godi safonau llythrennedd a rhifedd. Mae cydweithio effeithiol gydag ysgolion y clwstwr i gyd-safoni a chymedroli tasgau wedi sicrhau dealltwriaeth gadarn yr athrawon wrth lefelu gwaith disgyblion. Mae partneriaethau cadarn yn bodoli gyda'r ysgolion uwchradd lleol. Mae trefniadau pontio yn effeithiol ac yn cynnwys ymweliadau gan staff a disgyblion. Mae hyn yn sicrhau trosglwyddo esmwyth wrth i'r disgyblion symud o'r sector cynradd i'r uwchradd.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae arweinwyr a rheolwyr yr ysgol yn rheoli'r adnoddau yn dda gan sicrhau trefniadau staffio priodol i addysgu'r cwricwlwm yn effeithiol. Gwneir y defnydd gorau posibl o'r adnoddau sydd ar gael i gyfoethogi'r cwricwlwm, gan gynnwys yr ardal tu allan. Mae'r staff wedi cydweithio'n effeithiol i greu amgylchedd dysgu ysgogol a deniadol i'r disgyblion.

Gwna'r athrawon ddefnydd priodol o'u hamser ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu. Mae gan yr ysgol drefn briodol o reoli perfformiad sydd bellach yn cynnig cyfleoedd cyson ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus i'r athrawon. Rhennir cyfrifoldeb rheoli perfformiad yr athrawon yn briodol rhwng aelodau'r uwch dim rheoli ac mae ganddynt amcanion i wella'u harferion proffesiynol o fewn cyd-destun yr ysgol.

Mae lleiafrif o staff yn aelodau o rwydweithiau o arfer broffesiynol sydd yn datblygu diwylliant gwerthfawr o gydweithio ag ysgolion eraill er mwyn codi safonau. Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol ag ysgolion cyfagos a'r teulu i godi safonau llythrennedd a rhifedd.

Mae penderfyniadau gwariant yr ysgol yn cysylltu'n briodol â blaenoriaethau ar gyfer codi safonau a lles disgyblion. Defnyddir grant amddifadedd i sicrhau cefnogaeth briodol i garfan o ddisgyblion. Caiff y gwariant ei fonitro'n briodol.

O ystyried cyflawniadau'r disgyblion, mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

# Atodiad 1:  Sylwadau ar ddata perfformiad

**6652263 - Ysgol Plas Coch**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 354 | |
| Disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 7.9 | |
| Grŵp PYD | 1 | (PYD<=8%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 54 | 59 | 51 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 83.3 | 96.6 | 86.3 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 3 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 54 | 59 | 51 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 92.6 | 96.6 | 94.1 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 3 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 42.6 | 39.0 | 35.3 |
| Chwartel meincnod | 1 | 2 | 3 |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 54 | 59 | 51 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 85.2 | 98.3 | 86.3 |
| Chwartel meincnod | 4 | 2 | 4 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 29.6 | 32.2 | 19.6 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 4 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 54 | 59 | 51 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 98.1 | 100.0 | 94.1 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | 4 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 50.0 | 61.0 | 64.7 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 3 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'I gilydd.
* Gallai’r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw’n ddigon trylwyr i’w chyhoeddi, os nad yw’n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae’r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy’n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy’n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy’n debyg i’r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy’n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy’n debyg i’r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6652263 - Ysgol Plas Coch**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 354 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 7.9 | |
| Grŵp PYD | 1 | (PYD<=8%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 25 | 30 | 26 | 30 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 92.0 | 86.7 | 92.3 | 93.3 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 3 | 3 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 25 | 30 | 26 | 30 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 92.0 | 90.0 | 96.2 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 2 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 6+ (%) | 40.0 | 40.0 | 38.5 | 46.7 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 3 | 3 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 25 | 30 | 26 | 30 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 92.0 | 83.3 | 92.3 | 96.7 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 2 | 2 |
| Yn cyflawni lefel 6+ (%) | 32.0 | 36.7 | 30.8 | 43.3 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 3 | 2 |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 25 | 30 | 26 | 30 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 96.0 | 90.0 | 96.2 | 93.3 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 2 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 6+ (%) | 44.0 | 33.3 | 23.1 | 43.3 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 4 | 3 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 25 | 30 | 26 | 30 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 96.0 | 86.7 | 100.0 | 96.7 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 1 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 6+ (%) | 24.0 | 26.7 | 26.9 | 40.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 4 | 3 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), Mathemateg a Gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Arolwg cynradd (pob disgybl)

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 104 | 104<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 105 | 102<br>97%<br>92% | 3<br>3%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 105 | 102<br>97%<br>96% | 3<br>3%<br>4% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 105 | 102<br>97%<br>97% | 3<br>3%<br>3% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 105 | 103<br>98%<br>96% | 2<br>2%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 105 | 101<br>96%<br>96% | 4<br>4%<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 105 | 104<br>99%<br>99% | 1<br>1%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 105 | 101<br>96%<br>98% | 4<br>4%<br>2% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 105 | 101<br>96%<br>91% | 4<br>4%<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 105 | 102<br>97%<br>95% | 3<br>3%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 104 | 85<br>82%<br>77% | 19<br>18%<br>23% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 104 | 76<br>73%<br>84% | 28<br>27%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

## Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 28 | 23 | 4 | 1 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 82% | 14% | 4% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 28 | 27 | 1 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 96% | 4% | 0% | 0% | | |
| | | 73% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 27 | 23 | 3 | 0 | 0 | 1 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 85% | 11% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 28 | 23 | 5 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 82% | 18% | 0% | 0% | | |
| | | 61% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 28 | 18 | 10 | 0 | 0 | 0 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 64% | 36% | 0% | 0% | | |
| | | 45% | 46% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 28 | 20 | 8 | 0 | 0 | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 71% | 29% | 0% | 0% | | |
| | | 60% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 28 | 21 | 7 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 75% | 25% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 28 | 15 | 9 | 1 | 0 | 3 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 54% | 32% | 4% | 0% | | |
| | | 47% | 40% | 6% | 1% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 28 | 21 | 7 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 75% | 25% | 0% | 0% | | |
| | | 58% | 33% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 28 | 16 | 10 | 0 | 0 | 2 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 57% | 36% | 0% | 0% | | |
| | | 59% | 36% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 28 | 23 | 4 | 1 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 82% | 14% | 4% | 0% | | |
| | | 66% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 26 | 19 | 3 | 0 | 0 | 4 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 73% | 12% | 0% | 0% | | |
| | | 50% | 34% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 28 | 16 | 11 | 1 | 0 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 57% | 39% | 4% | 0% | | |
| | | 49% | 40% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 28 | 24 | 3 | 1 | 0 | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 86% | 11% | 4% | 0% | | |
| | | 62% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 28 | 20 | 8 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 71% | 29% | 0% | 0% | | |
| | | 44% | 39% | 7% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 28 | 22 | 6 | 0 | 0 | 0 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 79% | 21% | 0% | 0% | | |
| | | 56% | 39% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 27 | 17 | 2 | 0 | 0 | 8 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 63% | 7% | 0% | 0% | | |
| | | 42% | 33% | 4% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 28 | 16 | 9 | 2 | 0 | 1 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 57% | 32% | 7% | 0% | | |
| | | 53% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 26 | 22 | 2 | 2 | 0 | 0 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 85% | 8% | 8% | 0% | | |
| | | 61% | 32% | 3% | 2% | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Anwen Griffith | Arolygydd Cofnodol |
| Dyfrig Ellis | Arolygydd Tîm |
| David Jenkins | Arolygydd Lleyg |
| Hefin Jones | Arolygydd Cymheiriaid |
| Gareth Owen | Arolygydd Cymheiriaid |
| Osian Jones | Enwebai |

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae’r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae’r tabl canlynol yn nodi’r amrediad oedrannau sy’n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy’n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw’r grŵp blwyddyn sy’n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae’r Cyfnod Sylfaen a’r cyfnodau allweddol yn cwmpasu’r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

### Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

### Y dangosydd pwnc craidd (DPC)

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

### Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.